FOLD LINE

## 30 Darn Arian

### Munud i Feddwl

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Cafodd Iesu ei fradychu gan Jwdas am fod Jwdas yn disgwyl iddo ddefnyddio grym i ddymchwel yr Ymerodraeth Rufeinig. Wnaeth yr hyn roedd Jwdas yn ei ddisgwyl ddim digwydd. Roedd Jwdas yn siomedig ac yn ddig ac eisiau dial.

Ydych chi'n meddwl fod y ffaith fod Jwdas wedi ei siomi yn Iesu yn esgus digonol i'w fradychu i'r prif offeiriaid?

Ydych chi'n meddwl fod Jwdas yn sylweddoli y byddai Iesu yn cael ei ladd?

Ydyn ni'n meddwl digon am beth allai canlyniadau ein gweithredoedd fod?

Weithiau rydyn ni'n teimlo fod ein teulu neu ein ffrindiau wedi'n gadael ni i lawr pan maen nhw'n gwneud pethau sy'n wahanol i'r hyn rydyn ni eisiau. Meddyliwch am y ffyrdd rydych chi'n delio â siom.


30 Darn Arian

Munud i Feddwl

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Cafodd Iesu ei fradychu gan Jwdas am fod Jwdas yn disgwyl iddo ddefnyddio grym i ddymchwel yr Ymerodraeth Rufeinig. Wnaeth yr hyn roedd Jwdas yn ei ddisgwyl ddim digwydd. Roedd Jwdas yn siomedig ac yn ddig ac eisiau dial.

Ydych chi'n meddwl fod y ffaith fod Jwdas wedi ei siomi yn Iesu yn esgus digonol i'w fradychu i'r prif offeiriaid?

Ydych chi'n meddwl fod Jwdas yn sylweddoli y byddai Iesu yn cael ei ladd?

Ydyn ni'n meddwl digon am beth allai canlyniadau ein gweithredoedd fod?

Weithiau rydyn ni'n teimlo fod ein teulu neu ein ffrindiau wedi'n gadael ni i lawr pan maen nhw'n gwneud pethau sy'n wahanol i'r hyn rydyn ni eisiau. Meddyliwch am y ffyrdd rydych chi'n delio â siom.


TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

## 30 Darn Arian
### Gwybodaeth Arteffact

Roedd un o ddisgyblion Iesu, sef Jwdas, wedi troi'n anfodlon gyda Iesu. Nid dyma'r math o Feseia roedd Jwdas yn ei ddisgwyl. Roedd y prif offeiriaid a'r Phariseaid yn cynllwynio i ladd Iesu. Dyma nhw'n perswadio Jwdas i fradychu Iesu iddyn nhw, a thalu 30 darn arian iddo, sef y pris fyddai rhywun yn ei dalu am gaethwas cyffredin.

Yn ystod Swper y Pasg dyma Iesu yn herio Jwdas am y brad. Yna'n ddiweddarach aeth Iesu gyda'i ddisgyblion eraill i Ardd Gethsemane i weddïo

Tra roedd yn yr ardd, daeth Jwdas yno at Iesu a'i gyfarch gyda chusan. Roedd hyn y arwydd i'r milwyr oedd wedi dod yno gyda'i cleddyfau i arestio Iesu.

Mae efengyl Mathew yn dweud fod Jwdas, ar ôl darganfod fod Iesu wedi ei ddedfrydu i farwolaeth, yn edifar am beth wnaeth ac wedi ceisio mynd â'r arian yn ôl i'r arweinwyr crefyddol yn y Deml.


TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

30 Darn Arian
Gwybodaeth Arteffact

Roedd un o ddisgyblion Iesu, sef Jwdas, wedi troi'n anfodlon gyda Iesu. Nid dyma'r math o Feseia roedd Jwdas yn ei ddisgwyl. Roedd y prif offeiriaid a'r Phariseaid yn cynllwynio i ladd Iesu. Dyma nhw'n perswadio Jwdas i fradychu Iesu iddyn nhw, a thalu 30 darn arian iddo, sef y pris fyddai rhywun yn ei dalu am gaethwas cyffredin.

Yn ystod Swper y Pasg dyma Iesu yn herio Jwdas am y brad. Yna'n ddiweddarach aeth Iesu gyda'i ddisgyblion eraill i Ardd Gethsemane i weddïo

Tra roedd yn yr ardd, daeth Jwdas yno at Iesu a'i gyfarch gyda chusan. Roedd hyn y arwydd i'r milwyr oedd wedi dod yno gyda'i cleddyfau i arestio Iesu.

Mae efengyl Mathew yn dweud fod Jwdas, ar ôl darganfod fod Iesu wedi ei ddedfrydu i farwolaeth, yn edifar am beth wnaeth ac wedi ceisio mynd â'r arian yn ôl i'r arweinwyr crefyddol yn y Deml.


FOLD LINE

## Bara a Gwin
## Munud i Feddwl

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Weithiau, pan mae ffrind yn mynd i ffwrdd, maen nhw'n rhoi rhywbeth i chi gofio amdanyn nhw;  llun falle, neu anrheg bach.

Cyn i Iesu farw, gofynnodd i'w ddisgyblion gofio amdano pan fydden nhw'n bwyta bara ac yfed gwin.

Heddiw mae Cristnogion yn dathlu'r hyn maen nhw'n ei alw yn y Gymun Sanctaidd. Maen nhw'n defnyddio bara a gwin i'w helpu i gofio marwolaeth Iesu a'i aberth.

Pam mae'n bwysig i Gristnogion gofio am farwolaeth Iesu?

Ydy'n bwysig cofio yr aberth mae pobl wedi'i wneud? (Meddyliwch am filwyr yn mynd i ryfel.)

## Bara a Gwin
## Munud i Feddwl

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Weithiau, pan mae ffrind yn mynd i ffwrdd, maen nhw'n rhoi rhywbeth i chi gofio amdanyn nhw;  llun falle, neu anrheg bach.

Cyn i Iesu farw, gofynnodd i'w ddisgyblion gofio amdano pan fydden nhw'n bwyta bara ac yfed gwin.

Heddiw mae Cristnogion yn dathlu'r hyn maen nhw'n ei alw yn y Gymun Sanctaidd. Maen nhw'n defnyddio bara a gwin i'w helpu i gofio marwolaeth Iesu a'i aberth.

Pam mae'n bwysig i Gristnogion gofio am farwolaeth Iesu?

Ydy'n bwysig cofio yr aberth mae pobl wedi'i wneud? (Meddyliwch am filwyr yn mynd i ryfel.)

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

## Bara a Gwin
## Gwybodaeth Arteffact

Daeth Iesu a'r disgyblion at ei gilydd i fwyta Gwledd y Pasg.  Roedd y pryd bwyd yn cynnwys bara croyw (heb furum ynddo), gwin, llysiau chwerw a chig oen

Mae Iddewon yn dal i ddathlu Gŵyl y Pasg heddiw.  Mae'n eu hatgoffa nhw o'r adeg pan oedd Pobl Israel yn gaethion yn yr Aifft, a sut cawson nhw eu cadw'n saff rhag yr angel dinistriol wnaeth basio heibio tai yr Iddewon.  Yna dyma'r Pharo yn rhyddhau pobl Israel o'u caethiwed.  Darllenwch y stori lawn yn Exodus penodau 11 a 12.

Mae'r Beibl yn dweud fod Iesu, yn ystod y pryd bwyd, wedi cymryd bara a'i rannu i'w ddisgyblion a dweud wrthyn nhw fod y bara yn cynrychioli ei gorff.  Yna cymerodd gwpan o win a dweud ei fod fel ei waed yn cael ei dywallt i faddau pechodau llawer o bobl.

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

## Bara a Gwin
## Gwybodaeth Arteffact

Daeth Iesu a'r disgyblion at ei gilydd i fwyta Gwledd y Pasg.  Roedd y pryd bwyd yn cynnwys bara croyw (heb furum ynddo), gwin, llysiau chwerw a chig oen

Mae Iddewon yn dal i ddathlu Gŵyl y Pasg heddiw.  Mae'n eu hatgoffa nhw o'r adeg pan oedd Pobl Israel yn gaethion yn yr Aifft, a sut cawson nhw eu cadw'n saff rhag yr angel dinistriol wnaeth basio heibio tai yr Iddewon.  Yna dyma'r Pharo yn rhyddhau pobl Israel o'u caethiwed.  Darllenwch y stori lawn yn Exodus penodau 11 a 12.

Mae'r Beibl yn dweud fod Iesu, yn ystod y pryd bwyd, wedi cymryd bara a'i rannu i'w ddisgyblion a dweud wrthyn nhw fod y bara yn cynrychioli ei gorff.  Yna cymerodd gwpan o win a dweud ei fod fel ei waed yn cael ei dywallt i faddau pechodau llawer o bobl.

FOLD LINE

## Coron ddrain
### Munud i Feddwl

Defnyddiodd y milwyr goron ddrain i wneud hwyl am ben Iesu. Roedden nhw hefyd yn defnyddio geiriau i'w frifo a'i fychanu.

Mae pobl yn gallu gwneud hwyl am eich pen oherwydd yr hyn rydych yn ei gredu, sut olwg sydd arnoch, beth rydych chi'n ei wisgo neu sut rydych chi'n siarad. Yn union fel mae camdriniaeth corfforol yn achosi poen, mae geiriau hefyd yn gallu brifo.

Meddyliwch am adeg pan oedd rhywun yn gwneud hwyl am eich pen chi, neu pan oeddech chi yn gwneud hwyl am ben rhywun arall. Sut oeddech chi'n teimlo?

Sut allwn ni gysuro rhywun sydd wedi cael ei frifo gan eraill?

Beth sy'n mynd trwy eich meddwl chi pan welwch y goron ddrain?

## Coron ddrain
### Munud i Feddwl

Defnyddiodd y milwyr goron ddrain i wneud hwyl am ben Iesu. Roedden nhw hefyd yn defnyddio geiriau i'w frifo a'i fychanu.

Mae pobl yn gallu gwneud hwyl am eich pen oherwydd yr hyn rydych yn ei gredu, sut olwg sydd arnoch, beth rydych chi'n ei wisgo neu sut rydych chi'n siarad. Yn union fel mae camdriniaeth corfforol yn achosi poen, mae geiriau hefyd yn gallu brifo.

Meddyliwch am adeg pan oedd rhywun yn gwneud hwyl am eich pen chi, neu pan oeddech chi yn gwneud hwyl am ben rhywun arall. Sut oeddech chi'n teimlo?

Sut allwn ni gysuro rhywun sydd wedi cael ei frifo gan eraill?

Beth sy'n mynd trwy eich meddwl chi pan welwch y goron ddrain?

FOLD LINE

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

## Coron ddrain
## Gwybodaeth Arteffact

Ar ôl i Iesu gael ei arestio, dyma'r milwyr Rhufeinig yn gwneud hwyl am ei ben. Dyma nhw'n rhoi coron wedi ei phlethu o ddrain ar ei ben ac yn cymryd arnynt eu bod yn ei addoli. Dyma nhw hefyd yn rhoi clogyn coch ar ei ysgwyddau a gwialen yn ei law. Roedd y milwyr yn poeri arno ac yn ei daro gyda'r wialen. Ar ôl blino cael sbort dyma nhw'n ei arwain allan i gael ei groeshoelio.

Mae'r rhan hon o'r stori i'w gweld yn Mathew, pennod 27, adnodau 28 i 31.

Credir fod y goron ddrain wedi ei gwneud o frigau pigog math o lwyn mieri oedd yn gyffredin yn Israel. Roedd drain hirion miniog arno, ac roedd yn ddigon hyblyg i'w blygu a'i blethu i siâp coron.

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

## Coron ddrain
## Gwybodaeth Arteffact

Ar ôl i Iesu gael ei arestio, dyma'r milwyr Rhufeinig yn gwneud hwyl am ei ben. Dyma nhw'n rhoi coron wedi ei phlethu o ddrain ar ei ben ac yn cymryd arnynt eu bod yn ei addoli. Dyma nhw hefyd yn rhoi clogyn coch ar ei ysgwyddau a gwialen yn ei law. Roedd y milwyr yn poeri arno ac yn ei daro gyda'r wialen. Ar ôl blino cael sbort dyma nhw'n ei arwain allan i gael ei groeshoelio.

Mae'r rhan hon o'r stori i'w gweld yn Mathew, pennod 27, adnodau 28 i 31.

Credir fod y goron ddrain wedi ei gwneud o frigau pigog math o lwyn mieri oedd yn gyffredin yn Israel. Roedd drain hirion miniog arno, ac roedd yn ddigon hyblyg i'w blygu a'i blethu i siâp coron.

FOLD LINE

## Y Groes a'r Bedd Gwag
## Gwybodaeth Arteffact

Roedd hi'n ganol dydd pan fu Iesu farw ar y groes. Diflannodd golau'r haul ac aeth yn dywyll fel y fagddu. Parhaodd hyn am dair awr.

Gofynnodd Joseff o Arimathea i Peilat am gorff Iesu. Yna dyma Joseff, gyda help Nicodemus, yn lapio'r corff gyda lliain a'i osod i orwedd mewn bedd newydd.

Rhoddodd Peilat filwyr ar ddyletswydd i warchod y bedd, fel bod neb yn gallu dwyn y corff.

Ar y Sul, pan aeth rhai o ddilynwyr Iesu at y bedd, dyma nhw'n darganfod fod y garreg fawr oedd dros geg y bedd wedi ei rholio i ffwrdd. Roedd y bedd yn wag, ac eithrio'r lliain roedd corff Iesu wedi ei lapio ynddo.


Y Groes a'r Bedd Gwag
Gwybodaeth Arteffact

Roedd hi'n ganol dydd pan fu Iesu farw ar y groes. Diflannodd golau'r haul ac aeth yn dywyll fel y fagddu. Parhaodd hyn am dair awr.

Gofynnodd Joseff o Arimathea i Peilat am gorff Iesu. Yna dyma Joseff, gyda help Nicodemus, yn lapio'r corff gyda lliain a'i osod i orwedd mewn bedd newydd.

Rhoddodd Peilat filwyr ar ddyletswydd i warchod y bedd, fel bod neb yn gallu dwyn y corff.

Ar y Sul, pan aeth rhai o ddilynwyr Iesu at y bedd, dyma nhw'n darganfod fod y garreg fawr oedd dros geg y bedd wedi ei rholio i ffwrdd. Roedd y bedd yn wag, ac eithrio'r lliain roedd corff Iesu wedi ei lapio ynddo.


## Y Groes a'r Bedd Gwag
## Munud i Feddwl

Pan aeth ffrindiau Iesu at y bedd, dyma nhw'n ei gael yn wag. Roedd y disgyblion wedi ypsetio i ddechrau, ond pan ddywedwyd wrthyn nhw fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, roedden nhw'n llawn cyffro.

Mae llawer o eglwysi Protestannaidd yn dangos croes sy'n wag. Mae hyn yn helpu Cristnogion i gofio fod Iesu nid yn unig wedi marw ond hefyd wedi dod yn ôl yn fyw, a'i fod bellach yn byw am byth.

Dychmygwch sut roedd y disgyblion yn teimlo pan ddeallon nhw fod Iesu yn fyw. Beth ydych chi'n meddwl wnaethon nhw?

Sut ydych chi'n ymateb i newyddion da?

Pam ydych chi'n meddwl mae Cristnogion yn awyddus i rannu'r newyddion da gydag eraill?


Y Groes a'r Bedd Gwag
Munud i Feddwl

Pan aeth ffrindiau Iesu at y bedd, dyma nhw'n ei gael yn wag. Roedd y disgyblion wedi ypsetio i ddechrau, ond pan ddywedwyd wrthyn nhw fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, roedden nhw'n llawn cyffro.

Mae llawer o eglwysi Protestannaidd yn dangos croes sy'n wag. Mae hyn yn helpu Cristnogion i gofio fod Iesu nid yn unig wedi marw ond hefyd wedi dod yn ôl yn fyw, a'i fod bellach yn byw am byth.

Dychmygwch sut roedd y disgyblion yn teimlo pan ddeallon nhw fod Iesu yn fyw. Beth ydych chi'n meddwl wnaethon nhw?

Sut ydych chi'n ymateb i newyddion da?

Pam ydych chi'n meddwl mae Cristnogion yn awyddus i rannu'r newyddion da gydag eraill?

FOLD LINE

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

# Lliain a Myrr

## Munud i Feddwl

Gall colli rhywun neu rywbeth rydych chi'n ei garu fod yn boenus iawn. Pan fu Iesu farw, roedd ei ddisgyblion, ei deulu a'i ffrindiau mor drist. Roedden nhw hefyd wedi drysu ac yn ofnus am nad oedden nhw'n deall pam oedd rhaid i Iesu farw mewn ffordd mor erchyll.

Mae Cristnogion yn credu fod Iesu yn gwybod mai cynllun Duw oedd iddo farw yn aberth. Roedd yn gwybod fod rhaid iddo gymryd y gosb am ddrygioni'r ddynoliaeth ac y byddai hyn yn ffordd o wneud y berthynas oedd wedi chwalu, rhwng Duw a phobl, yn iawn unwaith eto.

Yng Ngardd Gethsemane roedd Iesu yn stryglo a allai barhau gyda chynllun Duw ai peidio. Ond yn y diwedd dewisodd Iesu fod yn ufudd er fod hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddo ddioddef marwolaeth erchyll.

Pam ydych chi'n meddwl wnaeth Iesu ddewis dioddef? Ydych chi'n meddwl mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud?

Ydych chi wedi gorfod gwneud penderfyniad anodd rywbryd? Sut wnaethoch chi benderfynu beth oedd y peth iawn i'w wneud?

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Lliain a Myrr

Munud i Feddwl

Gall colli rhywun neu rywbeth rydych chi'n ei garu fod yn boenus iawn. Pan fu Iesu farw, roedd ei ddisgyblion, ei deulu a'i ffrindiau mor drist. Roedden nhw hefyd wedi drysu ac yn ofnus am nad oedden nhw'n deall pam oedd rhaid i Iesu farw mewn ffordd mor erchyll.

Mae Cristnogion yn credu fod Iesu yn gwybod mai cynllun Duw oedd iddo farw yn aberth. Roedd yn gwybod fod rhaid iddo gymryd y gosb am ddrygioni'r ddynoliaeth ac y byddai hyn yn ffordd o wneud y berthynas oedd wedi chwalu, rhwng Duw a phobl, yn iawn unwaith eto.

Yng Ngardd Gethsemane roedd Iesu yn stryglo a allai barhau gyda chynllun Duw ai peidio. Ond yn y diwedd dewisodd Iesu fod yn ufudd er fod hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddo ddioddef marwolaeth erchyll.

Pam ydych chi'n meddwl wnaeth Iesu ddewis dioddef? Ydych chi'n meddwl mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud?

Ydych chi wedi gorfod gwneud penderfyniad anodd rywbryd? Sut wnaethoch chi benderfynu beth oedd y peth iawn i'w wneud?

FOLD LINE

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

# Lliain a Myrr
## Gwybodaeth Arteffact

Ar ôl i Iesu farw dyma Joseff o Arimathea yn gofyn i Peilat am gorff Iesu. Dyma Joseff, a chyfaill arall i Iesu o'r enw Nicodemus, yn eneinio'r corff gyda myrr, ei lapio mewn lliain a'i osod mewn bedd newydd, yna rholio carreg fawr dros geg y bedd.

Rhoddwyd myrr i Iesu gan y gwŷr doeth pan gafodd ei eni (Mathew, pennod 2, adnod 11). Mae llawer o Gristnogion yn credu fod y gwŷr doeth wedi rhoi myrr i Iesu am eu bod wedi darllen y proffwydoliaethau am ei farwolaeth.

Roedd Iesu wedi dweud y byddai'n dod yn ôl yn fyw ar y trydydd dydd (sef deuddydd yn ddiweddarach), felly rhoddodd Peilat filwyr i warchod y bedd. Gwnaeth hyn i rwystro unrhyw un rhag dwyn y corff.

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Lliain a Myrr
Gwybodaeth Arteffact

Ar ôl i Iesu farw dyma Joseff o Arimathea yn gofyn i Peilat am gorff Iesu. Dyma Joseff, a chyfaill arall i Iesu o'r enw Nicodemus, yn eneinio'r corff gyda myrr, ei lapio mewn lliain a'i osod mewn bedd newydd, yna rholio carreg fawr dros geg y bedd.

Rhoddwyd myrr i Iesu gan y gwŷr doeth pan gafodd ei eni (Mathew, pennod 2, adnod 11). Mae llawer o Gristnogion yn credu fod y gwŷr doeth wedi rhoi myrr i Iesu am eu bod wedi darllen y proffwydoliaethau am ei farwolaeth.

Roedd Iesu wedi dweud y byddai'n dod yn ôl yn fyw ar y trydydd dydd (sef deuddydd yn ddiweddarach), felly rhoddodd Peilat filwyr i warchod y bedd. Gwnaeth hyn i rwystro unrhyw un rhag dwyn y corff.

## Hoelion
### Munud i Feddwl

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, cafodd y Gadeirlan yn Coventry ei difrodi'n ddrwg mewn cyrch bomio.

Darganfyddwyd tair hoelen ganoloesol yn y rwbel, a ffurfiwyd croes ohonynt. Dyma'r Groes Hoelion wreiddiol, a daeth y Groes Hoelion yn arwydd o faddeuant, cyfeillgarwch a gobaith yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, yn arbennig yn y berthynas newydd gyda'r Almaen.

Tra roedd wedi ei hoelio ar y groes, dywedodd Iesu, 'Dad, maddau iddyn nhw.' Nid yw'n beth hawdd i faddau i rywun sydd wedi eich brifo chi, yn enwedig os nad ydyn nhw'n edifar.

Ydy esiampl Iesu o faddeuant yn rhy anodd i'w dilyn?

Sut allwn ni helpu'n hunain i faddau i eraill?

Wrth feddwl am yr adegau pan rydyn ni wedi cael ein brifo, ydy hyn yn gwneud i ni feddwl am y ffordd mae'n hymddygiad ni yn effeithio ar eraill?



TonyHisgett o Birmigham, y DU [CC BY 2.0 (https://creativecommons.org/licenses/by/2.0)], o WikimediaCommons

## Hoelion
### Munud i Feddwl

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, cafodd y Gadeirlan yn Coventry ei difrodi'n ddrwg mewn cyrch bomio.

Darganfyddwyd tair hoelen ganoloesol yn y rwbel, a ffurfiwyd croes ohonynt. Dyma'r Groes Hoelion wreiddiol, a daeth y Groes Hoelion yn arwydd o faddeuant, cyfeillgarwch a gobaith yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, yn arbennig yn y berthynas newydd gyda'r Almaen.

Tra roedd wedi ei hoelio ar y groes, dywedodd Iesu, 'Dad, maddau iddyn nhw.' Nid yw'n beth hawdd i faddau i rywun sydd wedi eich brifo chi, yn enwedig os nad ydyn nhw'n edifar.

Ydy esiampl Iesu o faddeuant yn rhy anodd i'w dilyn?

Sut allwn ni helpu'n hunain i faddau i eraill?

Wrth feddwl am yr adegau pan rydyn ni wedi cael ein brifo, ydy hyn yn gwneud i ni feddwl am y ffordd mae'n hymddygiad ni yn effeithio ar eraill?



TonyHisgett o Birmigham, y DU [CC BY 2.0 (https://creativecommons.org/licenses/by/2.0)], o WikimediaCommons

## Hoelion
### Gwybodaeth Arteffact

Yn efengyl Mathew, pennod 27, adnod 35, mae'n dweud fod Iesu wedi cael ei hoelio ar groes. Yr enw ar hyn oedd croeshoeliad; ffordd erchyll o ddienyddio pobl (eu lladd) oedd yn digwydd yn aml yn nyddiau Iesu.

Cafodd Iesu ei roi ar y groes gyda thair hoelen: un drwy bob llaw (yr arddwrn) ac un drwy ei draed oedd wedi eu rhwymo at ei gilydd.

Mae'n debyg fod yr hoelion wedi eu gwneud o haearn a thua 18-23 cm. (7 – 9 modfedd) o hyd.

Roedd Iesu ar y groes am tua chwe awr cyn iddo farw.

## Hoelion
### Gwybodaeth Arteffact

Yn efengyl Mathew, pennod 27, adnod 35, mae'n dweud fod Iesu wedi cael ei hoelio ar groes. Yr enw ar hyn oedd croeshoeliad; ffordd erchyll o ddienyddio pobl (eu lladd) oedd yn digwydd yn aml yn nyddiau Iesu.

Cafodd Iesu ei roi ar y groes gyda thair hoelen: un drwy bob llaw (yr arddwrn) ac un drwy ei draed oedd wedi eu rhwymo at ei gilydd.

Mae'n debyg fod yr hoelion wedi eu gwneud o haearn a thua 18-23 cm. (7 – 9 modfedd) o hyd.

Roedd Iesu ar y groes am tua chwe awr cyn iddo farw.

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

# Croes Palmwydd
## Munud i Feddwl

Mae llawer o enwogion yn teithio mewn ffyrdd sy'n dangos mor bwysig a chyfoethog ydyn nhw. Aeth Iesu i Jerwsalem ar gefn ebol asyn. Pam ydych chi'n meddwl wnaeth e ddewis marchogaeth ar asyn ac nid ar geffyl hardd neu mewn cerbyd smart?

Croesawodd y bobl Iesu gyda changhennau palmwydd, a gosod eu cotiau ar lawr o'i flaen. Beth fyddai pobl yn ei wneud heddiw i groesawu Iesu i'w tref?

Ar Sul y Palmwydd, y Sul cyn y Pasg, mae llawer o eglwysi ar hyd a lled y byd yn rhoi croesau palmwydd i bawb yn y gynulleidfa. Mae'r croesau yn cael eu defnyddio i gofio hanes Iesu yn mynd i mewn i Jerwsalem.

Pam mae cael rhywbeth i afael ynddo neu edrych arno yn ein helpu i gofio?

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Croes Palmwydd
Munud i Feddwl

Mae llawer o enwogion yn teithio mewn ffyrdd sy'n dangos mor bwysig a chyfoethog ydyn nhw. Aeth Iesu i Jerwsalem ar gefn ebol asyn. Pam ydych chi'n meddwl wnaeth e ddewis marchogaeth ar asyn ac nid ar geffyl hardd neu mewn cerbyd smart?

Croesawodd y bobl Iesu gyda changhennau palmwydd, a gosod eu cotiau ar lawr o'i flaen. Beth fyddai pobl yn ei wneud heddiw i groesawu Iesu i'w tref?

Ar Sul y Palmwydd, y Sul cyn y Pasg, mae llawer o eglwysi ar hyd a lled y byd yn rhoi croesau palmwydd i bawb yn y gynulleidfa. Mae'r croesau yn cael eu defnyddio i gofio hanes Iesu yn mynd i mewn i Jerwsalem.

Pam mae cael rhywbeth i afael ynddo neu edrych arno yn ein helpu i gofio?

FOLD LINE

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

# Deilen Palmwydd
## Gwybodaeth Arteffact

Roedd tyrfa fawr o bobl yn Jerwsalem ar gyfer Gŵyl y Pasg. Roedd llawer ohonyn nhw wedi clywed am Iesu, ei ddysgeidiaeth a'i wyrthiau. Roeddent yn gyffrous iawn o'i weld.

Aeth Iesu i mewn i'r ddinas ar ddechrau'r wythnos. Dyma'r bobl yn torri canghennau o'r coed palmwydd a'u chwifio, gan weiddi "Hosanna!" Roedden nhw'n ei groesawu fel brenin, ac roedd rhai hyd yn oed yn gosod eu cotiau fel carped ar y ffordd o'i flaen. Gellir darllen y stori yn Marc pennod 11 adnodau 1-11.

Roedd chwifio dail palmwydd yn rywbeth roedd yr Iddewon yn ei wneud i ddathlu Gŵyl y Pebyll, sy'n cael ei disgrifio yn Lefiticus pennod 23 adnod 40. Roedd chwifio dail palmwydd hefyd yn arfer cyffredin wrth groesawu brenin yn ôl adre.

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Deilen Palmwydd
Gwybodaeth Arteffact

Roedd tyrfa fawr o bobl yn Jerwsalem ar gyfer Gŵyl y Pasg. Roedd llawer ohonyn nhw wedi clywed am Iesu, ei ddysgeidiaeth a'i wyrthiau. Roeddent yn gyffrous iawn o'i weld.

Aeth Iesu i mewn i'r ddinas ar ddechrau'r wythnos. Dyma'r bobl yn torri canghennau o'r coed palmwydd a'u chwifio, gan weiddi "Hosanna!" Roedden nhw'n ei groesawu fel brenin, ac roedd rhai hyd yn oed yn gosod eu cotiau fel carped ar y ffordd o'i flaen. Gellir darllen y stori yn Marc pennod 11 adnodau 1-11.

Roedd chwifio dail palmwydd yn rywbeth roedd yr Iddewon yn ei wneud i ddathlu Gŵyl y Pebyll, sy'n cael ei disgrifio yn Lefiticus pennod 23 adnod 40. Roedd chwifio dail palmwydd hefyd yn arfer cyffredin wrth groesawu brenin yn ôl adre.